Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad o drefniadau llywodraethu gyda ffocws penodol ar y Gwasanaeth Cynllunio yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Blwyddyn archwilio: 2023-24

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 3924A2023

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i fod wedi'i argyhoeddi bod y Cyngor wedi sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran y modd y mae'n defnyddio ei adnoddau.

Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Argymhellion 5

Adroddiad manwl

Mae oedi parhaus wrth fabwysiadu dogfennau strategol allweddol wedi creu risgiau sylweddol i'r Cyngor ac mae perthnasoedd rhwng rhai aelodau a swyddogion wedi torri. O ganlyniad, mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n cael ei rwystro rhag cyflawni ei rôl fel galluogydd allweddol ar draws y Cyngor 6

Nid yw'r aelodau wedi mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol sy'n creu risgiau sylweddol i'r Cyngor. 6

Mae gan y Gwasanaeth Cynllunio drefniadau llywodraethu priodol, gan ddarparu hyfforddiant cynhwysfawr i'r aelodau, ond mae perthnasoedd aelodau â swyddogion wedi torri, ac mae cyngor proffesiynol gan swyddogion yn cael ei danseilio'n aml. 7

Mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n monitro ei berfformiad ond hwn yw'r unig Gyngor yng Nghymru nad yw'n gallu cael budd o ddata a gynhyrchwyd ar gyfer adroddiadau monitro statudol y Cynllun Datblygu Lleol i oleuo a thanategu trefniadau penderfynu. 8

Atodiadau

Atodiad 1 – Cwestiynau a meini prawf archwilio 10

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Ein hamcan ar gyfer yr archwiliad hwn yw cael sicrwydd bod gan y Cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol i sicrhau gwerth am arian wrth wneud penderfyniadau gyda ffocws ar y Gwasanaeth Cynllunio.

2 Fe wnaethom hyn trwy gynnal adolygiad o drefniadau'r Gwasanaeth Cynllunio ac ystyried i ba raddau y mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei amcanion ar y cyfan. Fe wnaethom ystyried sut y mae'r Cyngor yn adolygu ac yn monitro ei drefniadau llywodraethu, gan gynnwys o ran sut y mae'n sicrhau gwerthoedd ac ymddygiadau priodol, gyda ffocws penodol ar y Gwasanaeth Cynllunio. Ni wnaethom adolygu perfformiad y Gwasanaeth Cynllunio na phenderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio unigol.

3 Ein nod oedd ateb y cwestiwn: A oes gan y Cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol i sicrhau gwerth am arian wrth wneud penderfyniadau gyda ffocws ar y Gwasanaeth Cynllunio?

4 Fe wnaethom hyn trwy archwilio'r cwestiynau canlynol:

- A oes gan y Gwasanaeth Cynllunio amcanion sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau strategol corfforaethol?
- A oes gan y Gwasanaeth Cynllunio rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir yr ymlynir wrthynt?
- A yw'r Gwasanaeth Cynllunio'n adolygu ac yn monitro effeithiolrwydd ei drefniadau?

Mae **Atodiad 1** yn nodi'r cwestiynau manwl yr oeddem yn ceisio'u hateb ynghyd â'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i benderfynu ar ein canfyddiadau.

5 Fe wnaethom y gwaith hwn yn ystod mis Hydref 2023 i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol dan adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i fod wedi'i argyhoeddi bod y Cyngor wedi sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran y modd y mae'n defnyddio'i adnoddau.

### Yr hyn a ganfuom

6 Ar y cyfan, canfuom fod oedi parhaus wrth fabwysiadu dogfennau strategol allweddol wedi creu risgiau sylweddol i'r Cyngor a bod perthnasoedd rhwng rhai aelodau a swyddogion wedi torri. O ganlyniad, mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n cael ei rwystro rhag cyflawni ei rôl fel galluogydd allweddol ar draws y Cyngor.

7 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- nid yw'r aelodau wedi mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) sy'n creu risgiau sylweddol i'r Cyngor.

- mae gan y Gwasanaeth Cynllunio drefniadau llywodraethu priodol, gan ddarparu hyfforddiant cynhwysfawr i'r aelodau, ond mae perthnasoedd aelodau â swyddogion wedi torri, ac mae cyngor proffesiynol gan swyddogion yn cael ei danseilio'n aml.
- mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n monitro ei berfformiad ond hwn yw'r unig Gyngor yng Nghymru nad yw'n gallu cael budd o ddata a gynhyrchwyd ar gyfer adroddiadau monitro statudol y CDLl i oleuo a thanategu trefniadau penderfynu.

# Argymhellion

**Arddangosyn 1: argymhellion**

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn. **Rydym yn argymell fel a ganlyn;**

| Argymhellion |
| --- |
| **Perthnasoedd rhwng swyddogion ac aelodau**<br>A1 Bod y Cyngor yn sicrhau bod aelodau'n ymlynu wrth yr holl bolisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud ag ymddygiad ac yn rhoi ystyriaeth lawn i'r risgiau pan eir yn groes i gyngor proffesiynol swyddogion. Dylai hyn gyfrannu at berthnasoedd gwell rhwng aelodau a swyddogion. |
| **Deall rolau a chyfrifoldebau**<br>A2 Bod y Cyngor yn sicrhau bod aelodau'n dangos dealltwriaeth bod rolau a chyfrifoldebau'n amrywio ar draws gwahanol bwyllgorau'r Cyngor ac yn ymlynu wrth y rolau hynny. Byddai hyn yn sicrhau bod trafodaethau mewn pwyllgorau'n berthnasol ac yn gymesur i ddiben pwyllgor. |
| **Rheoli Risgiau Corfforaethol**<br>A3 Bod y Cyngor yn sicrhau bod ei Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cynnwys mesurau lliniaru priodol sydd wedi'u dyrannu i berchnogion penodol fel bod yr holl aelodau a swyddogion yn ymwybodol o'u rôl i sicrhau bod risg yn cael ei rheoli'n briodol. Os na ellir adnabod unrhyw gamau lliniaru ar gyfer tasg benodol, dylai'r Cyngor nodi'r rhesymau dros hyn o fewn y gofrestr i sicrhau tryloywder. |

# Adroddiad manwl

## Mae oedi parhaus wrth fabwysiadu dogfennau strategol allweddol wedi creu risgiau sylweddol i'r Cyngor ac mae perthnasoedd rhwng rhai aelodau a swyddogion wedi torri. O ganlyniad, mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n cael ei rwystro rhag cyflawni ei rôl fel galluogydd allweddol ar draws y Cyngor[1]

### Nid yw'r aelodau wedi mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol sy'n creu risgiau sylweddol i'r Cyngor

8 Mae Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod yn Nghymru baratoi a mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar gyfer ei ardal. Mae Cynllun Datblygu Lleol yn allweddol i sicrhau bod yr ardal yn cael ei datblygu mewn modd strwythuredig a chynaliadwy ac yn darparu fframwaith ar gyfer gwasanaethau cost-effeithiol yn y dyfodol. Fe wnaeth uwch swyddogion amlinellu pwysigrwydd strategol bod â Chynllun Datblygu Lleol a risgiau peidio â mabwysiadu un yn ystod y broses o ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol 2 (CDLl2) ac wrth ei gyflwyno yn y Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor. Fodd bynnag, ym mis Ebrill 2023 fe benderfynodd y Cyngor llawn beidio â mabwysiadu CDLl, ac mae wedi bod heb un ers i'r gofyniad ddod i rym. Mae'r penderfyniad hwn wedi bod yn rhwystr sylweddol i rôl a dylanwad polisi rheoli datblygu a chynllunio o ran llywio defnydd tir ac adfywio economaidd cynaliadwy. O ganlyniad, Wrecsam yw'r unig Gyngor yng Nghymru i fod heb CDLl sydd wedi'i fabwysiadu.

9 Mae gennym bryderon difrifol ynghylch cynaliadwyedd a chymhlethdod cynyddol llwythi achosion cyfredol Swyddogion Cynllunio. Mae rhywfaint o'r cymhlethdod ychwanegol hwn wedi digwydd yn uniongyrchol o ganlyniad i'r angen i swyddogion gyfeirio at ddau fframwaith gwahanol, sef y Cynllun Datblygu Unedol sydd mewn bod ac a gymeradwywyd yn 2005 a CDLl2 sydd heb gael ei fabwysiadu. Mae hyn yn creu pwysau ar wasanaeth sydd eisoes heb ddigon o staff.

10 Mae methu â mabwysiadu CDLl yn risg sylweddol i'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn cydnabod hyn trwy ei drefniadau rheoli risg presennol ac mae wedi uwchgyfeirio'r risg hon i A1 ('critigol') o fewn ei Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Mae'r sgôr risg 'critigol' yn adlewyrchu pwysigrwydd y ddogfen strategol allweddol hon. Nid yw'r Cyngor wedi pennu camau lliniaru i ostwng y lefel risg hon sy'n wendid sylweddol mewn trefniadau llywodraethu.

[1] Ers ein gwaith archwilio, mabwysiadodd y Cyngor Gynllun y Cyngor 2023-28 ar 13eg Ragfyr 2023 ac fe fabwysiadodd y Cynllun Datblygu Lleol mewn Cyfarfod Anghyffredin o'r Cyngor ar 20fed Ragfyr 2023.

11 Hefyd, mae'r penderfyniad i beidio â mabwysiadu CDLl wedi creu risg ariannol i'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn wynebu ffioedd cyfreithiol mewn perthynas ag adolygiad barnwrol o'r penderfyniad i beidio â mabwysiadu ei CDLl2. Ceir risg hefyd y bydd ceisiadau cynllunio yn y dyfodol yn cael eu penderfynu trwy'r broses apeliadau a fydd hefyd yn cael effaith negyddol ar adnoddau'r Cyngor. Mae'r ffocws cynyddol ar Wrecsam dros y blynyddoedd diwethaf yn gyfle i fanteisio ymhellach ar fuddsoddiad yn yr ardal; serch hynny, gallai hyn gael ei rwystro gan nad yw'r cyngor yn gallu cael budd o'r sicrwydd a chyfle ar gyfer buddsoddi a ddarperir gan ddyraniad tir mewn cynllun datblygu lleol.

12 Ar adeg ein hadolygiad ni roedd oedi sylweddol hefyd o ran cymeradwyo a diweddaru Cynllun y Cyngor ers i gynllun 2020-2023 ddod i ben ym mis Mawrth 2023. Mae hon yn ddogfen gorfforaethol allweddol arall sy'n sail i ddarparu holl wasanaethau'r Cyngor. Heb hon, nid oes gan wasanaethau'r Cyngor y cyfeiriad ac arweinyddiaeth strategol y mae eu hangen arnynt i ddarparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd.

## Mae gan y Gwasanaeth Cynllunio drefniadau llywodraethu priodol, gan ddarparu hyfforddiant cynhwysfawr i'r aelodau, ond mae perthnasoedd aelodau â swyddogion wedi torri, ac mae cyngor proffesiynol gan swyddogion yn cael ei danseilio'n aml

13 Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu digonol gan gynnwys Cod Ymddygiad Cynllunio sy'n gynhwysfawr ac wedi'i ysgrifennu mewn iaith glir. Mae'r Cod Ymddygiad yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio ac aelodau nad ydynt ar y pwyllgor, gan gynnwys canllawiau ar siarad ac ymddygiad yn y Pwyllgor Cynllunio.

14 Ceir perthnasoedd gweithio adeiladol rhwng Gwasanaeth Cynllunio a Gwasanaeth Cyfreithiol y Cyngor. Mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn rhoi cymorth yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio ac yn cyfrannu wrth ddatblygu gweithdrefnau newydd ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio neu ddiwygio'i weithdrefnau presennol.

15 Mae'r Cyngor yn adolygu ei gyfansoddiad ac yn monitro ymddygiad Aelodau'n rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys oedi cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio i atgoffa aelodau am y Cod Ymddygiad ac atgyfnerthu protocolau corfforaethol ar y cyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos i ni bod yr ymyriadau hyn yn ddigon effeithiol. Mae gennym bryderon parhaus ynghylch y modd y mae rhai aelodau'n ymlynu wrth fframwaith gwerthoedd ac ymddygiadau'r Cyngor.

16 Mae gan y Cyngor Gynllun Dirprwyo ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau cynllunio sy'n eglur ac yn dryloyw. Mae'r Cyngor yn bwriadu mireinio'r Cynllun Dirprwyo cyfredol mewn ymateb i argymhelliad gan adolygiad allanol o'r Gwasanaeth Cynllunio a gynhyrchwyd gan y Gwasanaeth Cynghori ar Gynllunio yn 2022. Fodd bynnag, byddai angen i'r Cyngor llawn gymeradwyo unrhyw newidiadau i'r cyfansoddiad. Gallai'r broses hon gael ei rhwystro gan y perthnasoedd heriol cyfredol rhwng swyddogion ac aelodau mewn perthynas â chynllunio.

17 O fewn y Cynllun Dirprwyo cyfredol, gall aelodau etholedig alw cais cynllunio yn eu hardal i mewn i'r Pwyllgor Cynllunio ar gyfer penderfyniad yn hytrach na'i fod yn cael ei benderfynu trwy'r broses o ddirprwyo penderfyniadau i swyddogion. Rôl

Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio yw penderfynu a yw cais o'r fath yn seiliedig ar ystyriaethau cynllunio perthnasol ac a ddylai, felly, gael ei benderfynu gan y Pwyllgor. O ganlyniad, ceir un pwynt dibyniaeth wrth benderfynu a ddylai rhai ceisiadau cynllunio penodol ddod gerbron y Pwyllgor Cynllunio. Nid yw'r trefniant hwn yn diogelu Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio rhag anghytundebau ac nid yw'n ymddangos yn briodol i ni ei fod yn dibynnu ar rywun nad yw'n weithiwr cynllunio proffesiynol i benderfynu pa geisiadau cynllunio ddylai gael eu hystyried gan y Pwyllgor Cynllunio.

18 Ar hyn o bryd, rhaid i aelodau etholedig a'r cyhoedd ofyn am fynediad i weld manylion pellach ar restr o geisiadau cynllunio a ddirprwywyd i gael eu penderfynu gan swyddogion. Mae'r Cyngor wedi nodi y gellid gwella trylwyredd yma ac mae wedi caffael meddalwedd newydd a fydd yn galluogi'r holl bartïon â buddiant i lawrlwytho manylion yr holl geisiadau cynllunio ac mae yn y broses o osod y meddalwedd hwnnw.

19 Er bod swyddogion yn darparu hyfforddiant cynhwysfawr ar yr holl bolisïau cynllunio i'r holl aelodau, o arsylwi ar gyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio mae'n amlwg bod rhai aelodau'n dangos diffyg dealltwriaeth am faterion cynllunio sylfaenol ac y gallent ddefnyddio dull mwy strategol o ymdrin â materion cynllunio. Er enghraifft, fe welsom swm anghymesur o amser yn cael ei dreulio'n trafod mân gydsyniadau cynllunio er bod aelodau wedi cael arweiniad gan swyddogion proffesiynol.

20 Clywsom fod staff yn gyndyn o ymgeisio am swyddi uwch ym maes polisi rheoli datblygu a chynllunio oherwydd ymwybyddiaeth bod y rolau hynny'n cael eu rhoi o dan bwysau sylweddol gan aelodau etholedig. Ar adeg ein gwaith maes, roedd swyddi gwag yn dal i fodoli ar lefelau gweithredol ac uwch yn y timau polisi rheoli datblygu a chynllunio gan ychwanegu pwysau cynyddol at dîm sydd eisoes dan ormod o bwysau.

21 Ymddengys i ni ar y cyfan nad yw perthnasoedd rhwng aelodau a swyddogion yn gynhyrchiol. Fe arsylwom ni ar aelodau'n cwestiynu cyngor swyddogion proffesiynol pan oeddent yn anfodlon ar esboniadau swyddogion o bolisïau cynllunio. Mae aelodau'n aml yn tanseilio swyddogion proffesiynol trwy ofyn am ail farn gan ddarparwyr gwasanaethau cyfreithiol allanol. Mae angen i'r Cyngor ystyried a yw aelodau'n gweithredu'n effeithlon a chan ystyried gwerth am arian yn ogystal â sut y mae'r ymddygiad hwn yn effeithio ar lesiant a gwydnwch swyddogion.

22 Mae'r Cyngor wedi ceisio cymorth allanol i wreiddio'r gwerthoedd ac ymddygiadau corfforaethol ar draws y sefydliad. Ym mis Ebrill 2023, rhoddodd y Cyngor gomisiwn i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i gyflwyno sesiynau i swyddogion ac aelodau er mwyn hwyluso'r gwaith hwn. Yn y flwyddyn flaenorol hefyd cynigiwyd sesiynau wedi'u hwyluso i wella ymddygiad yn ystod cyfarfodydd cyhoeddus. Er gwaethaf y cynnig hwn, gwrthododd aelodau rai sesiynau.

## Mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n monitro ei berfformiad ond hwn yw'r unig Gyngor yng Nghymru nad yw'n gallu cael budd o ddata a gynhyrchwyd ar gyfer adroddiadau monitro statudol y CDLl i oleuo a thanategu trefniadau penderfynu

23 Mae gan y Gwasanaeth Cynllunio arweinwyr gweithredol cryf a phrofiadol sy’n cydnabod bod y gwasanaeth ar siwrne wella. Fe gomisiynydd y Gwasanaeth Cynllunio adolygiad annibynnol gan y Gwasanaeth Cynghori ar Gynllunio yn 2021 ac mae’n gweithredu ar ei argymhellion.

24 Nid oes gan y Gwasanaeth Cynllunio gyllideb yn benodol ar gyfer dysgu a datblygu ffurfiol; fodd bynnag, anogir swyddogion i gael mynediad at ddysgu anffurfiol. Mae hyn yn cynnwys cael profiad trwy weithio ar geisiadau cynllunio mwy cymhleth gyda chymorth gwybodaeth ac arbenigedd uwch gydweithwyr.

25 Mae aelodau’r Pwyllgor Cynllunio’n cael adroddiadau perfformiad chwarterol ar y Gwasanaeth Rheoli Datblygu. Pe bai CDLl wedi cael ei fabwysiadu, byddai gofyniad statudol i’r Cyngor gyflwyno Adroddiadau Monitro Blynyddol i Lywodraeth Cymru ar y modd y mae’n cyrraedd ei dargedau. Gan nad oes gan y Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam CDLl cymeradwy, nid yw’r gofyniad statudol hwn yn bodoli ar gyfer y Cyngor.

26 Diben yr adroddiad monitro blynyddol yw asesu effeithiau CDLl a pha un a yw’r Cyngor yn cyflawni amcanion allweddol ei gynllun. Mae hefyd yn darparu ar gyfer casglu data’n barhaus ar ystod o destunau sy’n ei gwneud yn bosibl cynnal dadansoddiad defnyddiol a chael data defnyddiol ar dueddiadau y gellir ei ddefnyddio i oleuo penderfyniadau gweithredol a strategol.

27 Mae’r adroddiad monitro blynyddol yn darparu ymarfer oedi-a-myfyrio blynyddol defnyddiol i gynghorau adnabod a oes angen diwygio CDLl mewn unrhyw ffordd gan ystyried materion economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Er enghraifft, mae gwybodaeth yr adroddir arni yn yr adroddiad monitro blynyddol yn ei gwneud yn bosibl ymyrryd mewn meysydd nad ydynt yn perfformio yn unol â’r disgwyliadau a chynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol i helpu i fynd i’r afael â’r heriau hyn.

28 Mae’r Cyngor yn monitro peth gwybodaeth mewn perthynas â Chyflawni o ran Tai a Gwblhawyd a’r Cyflenwad o Dir ar gyfer Tai a Thir Cyflogaeth a Gwblhawyd a’r Cyflenwad o Dir ar gyfer Cyflogaeth a hynny’n wirfoddol ond nid yw’n defnyddio’r wybodaeth hon yn ffurfiol fel rhan o’i broses sicrwydd a phenderfynu. Fodd bynnag, oherwydd y diffyg gofyniad i gyflwyno’r adroddiad monitro blynyddol, nid yw’r Cyngor yn monitro niferoedd sylweddol o ddangosyddion. Mae hyn yn golygu mai Wrecsam yw’r unig gyngor yng Nghymru nad yw’n monitro, cofnodi na rhannu symiau sylweddol o wybodaeth allweddol sy’n tanategu’r system gynllunio.

# Appendix 1

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

A oes gan Wasanaeth Cynllunio'r Cyngor drefniadau llywodraethu sy'n dangos gwerth am arian wrth wneud penderfyniadau?

| Cwestiynau Lefel 2 | Meini Prawf |
|---|---|
| 1. A oes gan y Gwasanaeth Cynllunio amcanion sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau strategol corfforaethol? | • Mae gan y gwasanaeth cynllunio gynllun busnes (neu ddogfen gyfatebol) gydag amcanion perthnasol a gaiff eu deall gan y rhai sy'n ymwneud â'r gwasanaeth cynllunio.<br>• Mae'r gwasanaeth cynllunio wedi nodi mesurau sy'n adlewyrchu effeithiau byrdymor a hirdymor, gyda cherrig milltir sy'n adlewyrchu cynnydd fel y bo'n briodol.<br>• Mae'r gwasanaeth cynllunio wedi nodi sut y bwriedir darparu adnoddau ar gyfer cynlluniau busnes y gwasanaeth dros y tymor canolig a hwy hyd y bo'n ymarferol (e.e. cynlluniau i gefnogi datblygiadau megis Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ac ati) a datblygu CDLl.<br>• Mae gan y Cyngor drefniadau cyfathrebu mewnol effeithiol gan gynnwys cyfarfodydd tîm rheolaidd o fewn y gwasanaeth a chyda'i bartneriaid.<br>• Ceir diwylliant cefnogol i fynd i'r afael ag unrhyw wahaniaethau mewn barn broffesiynol wrth benderfynu ceisiadau cynllunio ac achosion gorfodaeth gynllunio.<br>• Mae'r gwasanaeth cynllunio wedi'i integreiddio fel galluogydd allweddol i gynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei amcanion corfforaethol. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Meini Prawf |
|---|---|
| 2. A oes gan y Gwasanaeth Cynllunio rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir yr ymlynir wrthynt? | • Ceir cylch gorchwyl eglur a chynhwysfawr ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio.<br>• Mae'r Pwyllgor Cynllunio'n cael ei Gadeirio'n effeithiol, ac mae'r Pwyllgor yn dangos ymddygiadau fel a nodir yng Nghod Ymddygiad y Cyngor.<br>• Mae aelodau a staff cynllunio'n cael hyfforddiant a chymorth priodol a rheolaidd i ddeall amcanion y gwasanaeth, polisïau cynllunio, rôl aelod o'r pwyllgor a threfniadau gweithdrefnol y pwyllgor, yn unol â phwyllgorau eraill y Cyngor.<br>• Mae gan y Cyngor brotocol (neu ddogfen gyfatebol) ar gyfer y pwyllgor cynllunio sy'n cynnwys cod ymddygiad a threfniadau gweithdrefnol y pwyllgor cynllunio y mae swyddogion ac aelodau'n eu deall ac yn ymlynu wrthynt.<br>• Mae'r Cyngor yn rhoi arweiniad i aelodau nad ydynt ar y Pwyllgor Cynllunio ar bolisïau cynllunio lleol a chenedlaethol, effaith ar gynlluniau strategol a threfniadau gweithdrefnol y pwyllgor.<br>• Mae gan y Cyngor gynllun dirprwyo eglur a thryloyw yr ymlynir wrtho, ac mae agendâu'n adlewyrchu hyn.<br>• Mae gan y Gwasanaeth Cynllunio brosesau eglur a thryloyw ar gyfer penderfynu ceisiadau cynllunio.<br>• Ceir diwylliant cefnogol i ymdrin ag unrhyw wahaniaethau mewn barn broffesiynol wrth benderfynu ceisiadau cynllunio yn y Pwyllgor Cynllunio a materion cynllunio ac mae hyn hefyd yn amlwg ar draws Pwyllgorau eraill y Cyngor.<br>• Mae'r Cyngor a'r Gwasanaeth Cynllunio'n nodi'n glir beth yw'r risgiau a'r cyfleoedd mewn perthynas â materion cynllunio gyda rhesymeg glir dros unrhyw benderfyniadau a wneir yn groes i gyngor proffesiynol. |
| 3. A yw'r Gwasanaeth Cynllunio'n adolygu ac yn monitro effeithiolrwydd ei drefniadau? | • Mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n dangos sut y mae'n cynnwys staff a phartneriaid allweddol wrth ddylunio'r modd y bydd gwasanaethau'n cael eu darparu yn y dyfodol.<br>• Mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n gallu dangos ei fod yn gweithio gyda gwasanaethau cymorth fel gwasanaethau cyfreithiol i adolygu a monitro ei drefniadau a'i ymddygiad.<br>• Ceir diwylliant cefnogol o ddysgu a datblygu ar gyfer staff cynllunio ac aelodau ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd.<br>• Mae gan y Gwasanaeth Cynllunio a'r Pwyllgor Cynllunio ddiwylliant o ddatblygu'n barhaus ac maent yn dilyn arfer gorau gan Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill gan gynnwys hunanfyfyrio.<br>• Ceir trefniadau i'r Gwasanaeth Cynllunio adrodd ar ei berfformiad yn erbyn amcanion wrth uwch reolwyr, aelodau a'r cyhoedd. |

Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd, CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.